Sunday the 18th of October 2026
+ Saint Luke the Evangelist

The collect of the day

Almighty God, you called Luke the physician, whose praise is in the gospel, to be an evangelist and physician of the soul : by the grace of the Spirit and through the wholesome medicine of the gospel, give your Church the same love and power to heal; through Jesus Christ our Lord, to whom with you and the Holy Spirit be all honour and glory, now and for ever. AMEN

A reading from Acts
(16.6-12a)

Paul and Timothy went through the region of Phrygia and Galatia, having been forbidden by the Holy Spirit to speak the word in Asia. When they had come opposite Mysia, they attempted to go into Bithynia, but the Spirit of Jesus did not allow them; so, passing by Mysia, they went down to Troas.

During the night Paul had a vision: there stood a man of Macedonia pleading with him and saying, 'Come over to Macedonia and help us.' When he had seen the vision, we immediately tried to cross over to Macedonia, being convinced that God had called us to proclaim the good news to them.

We set sail from Troas and took a straight course to Samothrace, the following day to Neapolis, and from there to Philippi, which is a leading city of the district of Macedonia and a Roman colony.

The Palm
(147.1-7)

How good it is to make music / for our / God: how joyful to / honour / him with / praise. The Lord builds / up Je/rusalem: and gathers to/gether the / outcasts of / Israel. He heals the / broken/hearted: and / binds up / all their / wounds.

He counts the / number • of the / stars: and / calls them / all • by their / names. Great is our Lord and / mighty in / power: his wisdom / is be/yond all / telling.

The Lord lifts / up the / poor: but casts down the / wicked / to the / ground. Sing to the / Lord with / thanksgiving: make music to our / God up/on the / lyre.

The reading from 2 Timothy
(4.5-17)

As for you, always be sober, endure suffering, do the work of an evangelist, carry out your ministry fully.

As for me, I am already being poured out as a libation, and the time of my departure has come. I have fought the good fight, I have finished the race, I have kept the faith. From now on there is reserved for me the crown of righteousness, which the Lord, the righteous judge, will give to me on that day, and not only to me but also to all who have longed for his appearing.

Do your best to come to me soon, for Demas, in love with this present world, has deserted me and gone to Thessalonica; Crescens has gone to Galatia, Titus to Dalmatia. Only Luke is with me.

Get Mark and bring him with you, for he is useful in my ministry. I have sent Tychicus to Ephesus. When you come, bring the cloak that I left with Carpus at Troas, also the books, and above all the parchments. Alexander the coppersmith did me great harm; the Lord will pay him back for his deeds. You also must beware of him, for he strongly opposed our message.

At my first defence no one came to my support, but all deserted me. May it not be counted against them! But the Lord stood by me and gave me strength, so that through me the message might be fully proclaimed and all the Gentiles might hear it. So I was rescued from the lion's mouth.

The reading from the Gospel of according to Saint Luke
(10.1-9)

The Lord appointed seventy others and sent them on ahead of him in pairs to every town and place where he himself intended to go. He said to them, 'The harvest is plentiful, but the labourers are few; therefore ask the Lord of the harvest to send out labourers into his harvest.

'Go on your way. See, I am sending you out like lambs into the midst of wolves. Carry no purse, no bag, no sandals; and greet no one on the road. Whatever house you enter, first say, "Peace to this house!" And if anyone is there who shares in peace, your peace will rest on that person; but if not, it will return to you.

'Remain in the same house, eating and drinking whatever they provide, for the labourer deserves to be paid. Do not move about from house to house. Whenever you enter a town and its people welcome you, eat what is set before you; cure the sick who are there, and say to them, "The kingdom of God has come near to you."'

The collect following communion

Father of our Lord Jesus Christ, open our minds to understand the Scriptures and our mouths to proclaim forgiveness in the name of him who lives and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN



Text from the Church in Wales – Word of the Lord 2011 copyright © Church in Wales Publications 2011. Collects and Post Communion Prayers from the book *New Calendar and the Collects*. Copyright © The Representative Body of the Church in Wales 2003 ISBN – 1853115495. Quotations and Psalms from *The New Revised Standard Version (Anglicized Edition)*, copyright 1989, 1995 by the Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used as permitted.

Dydd Sul 18fed Hydref 2026
+ Sant Luc, Efengylwr

Colect y dydd

Hollalluog Dduw, gelwaist Luc y Ffisigwr, sydd â'i glod yn yr efengyl, i fod yn efengylwr a meddyg i'r enaid trwy ras yr Ysbryd a thrwy feddyginiaeth iachusol yr efengyi, dyro i'th Eglwys yr un cariad a gallu i iacháu; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân yr holl anrhydedd a gogoniant, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Actau
(16.6-12a)

Aethant trwy ranbarth Phrygia a Galatia, ar ôl i'r Ysbryd Glân eu rhwystro rhag llefaru'r gair yn Asia. Wedi iddynt ddod hyd at Mysia, yr oeddent yn ceisio mynd i Bithynia, ond ni chaniataodd ysbryd Iesu iddynt. Ac aethant heibio i Mysia, a dod i lawr i Troas.

Ymddangosodd gweledigaeth i Paul un noson - gŵr o Facedonia yn sefyll ac yn ymbil arno a dweud, "Tyrd drosodd i Facedonia, a chymorth ni." Pan gafodd ef y weledigaeth, rhoesom gynnig ar fynd i Facedonia ar ein hunion, gan gasglu mai Duw oedd wedi ein galw i gyhoeddi'r newydd da iddynt hwy.

Ac wedi hwylio o Troas, aethom ar union hynt i Samothrace, a thrannoeth i Neapolis, ac oddi yno i Philipi; dinas yw hon yn rhanbarth gyntaf Macedonia, ac y mae'n drefedigaeth Rufeinig.

Y Salm
(147.1-7)

Molwch yr ARGLWYDD. Da yw canu mawl i'n Duw ni, oherwydd hyfryd a gweddus yw mawl. Y mae'r ARGLWYDD yn adeiladu Jerwsalem, y mae'n casglu rhai gwasgaredig Israel. Y mae'n iacháu'r rhai drylliedig o galon, ac yn rhwymo eu doluriau.

Y mae'n pennu nifer y sêr, ac yn rhoi enwau arnynt i gyd. Mawr yw ein Harglwydd ni, a chryf o nerth; y mae ei ddoethineb yn ddifesur.

Y mae'r ARGLWYDD yn codi'r rhai gostyngedig, ond yn bwrw'r drygionus i'r llawr. Canwch i'r ARGLWYDD mewn diolch, canwch fawl i'n Duw â'r delyn.

Darlleniad o 2 Timotheus
(4.5-17)

Ond yn hyn oll cadw di ddisgyblaeth arnat dy hun: goddef galedi; gwna waith efengylwr; cyflawna holl ofynion dy weinidogaeth.

Oherwydd y mae fy mywyd i eisoes yn cael ei dywallt mewn aberth, ac y mae amser fy ymadawiad wedi dod. Yr wyf wedi ymdrechu'r ymdrech lew, yr wyf wedi rhedeg yr yrfa i'r pen, yr wyf wedi cadw'r ffydd. Bellach y mae torch cyfiawnder ar gadw i mi; a bydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, yn ei chyflwyno hi imi ar y Dydd hwnnw, ac nid i mi yn unig ond i bawb fydd wedi rhoi eu serch ar ei ymddangosiad ef.

Gwna dy orau i ddod ataf yn fuan, oherwydd rhoddodd Demas ei serch ar y byd hwn, a'm gadael. Aeth ef i Thesalonica, a Crescens i Galatia, a Titus i Dalmatia. Luc yn unig sydd gyda mi.

Galw am Marc, a thyrd ag ef gyda thi, gan ei fod o gymorth mawr i mi yn fy ngweinidogaeth. Anfonais Tychicus i Effesus. Pan fyddi'n dod, tyrd â'r clogyn a adewais ar ôl gyda Carpus yn Troas, a'r llyfrau hefyd, yn arbennig y memrynau. Gwnaeth Alexander, y gof copr, ddrwg mawr imi. Fe dâl yr Arglwydd iddo yn ôl ei weithredoedd. Bydd dithau ar dy wyliadwriaeth rhagddo, oherwydd y mae wedi gwrthwynebu ein cenadwri ni i'r eithaf.

Yn y gwrandawiad cyntaf o'm hamddiffyniad, ni safodd neb gyda mi; aeth pawb a'm gadael; peidied Duw â chyfrif hyn yn eu herbyn. Ond safodd yr Arglwydd gyda mi, a rhoddodd nerth imi, er mwyn, trwof fi, i'r pregethu gael ei gyflawni ac i'r holl Genhedloedd gael ei glywed; a chefais fy ngwaredu o enau'r llew.

Darlleniad Efengyl ol Sant Luc
(10.1-9)

Wedi hynny penododd yr Arglwydd ddeuddeg a thrigain arall, a'u hanfon allan o'i flaen, bob yn ddau, i bob tref a man yr oedd ef ei hun am fynd iddynt. Dywedodd wrthynt, "Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin; deisyfwch felly ar arglwydd y cynhaeaf i anfon gweithwyr i'w gynhaeaf.

"Ewch; dyma fi'n eich anfon allan fel ŵyn i blith bleiddiaid. Peidiwch â chario na phwrs na chod na sandalau, a pheidiwch â chyfarch neb ar y ffordd. Pa dŷ bynnag yr ewch i mewn iddo, dywedwch yn gyntaf, 'Tangnefedd i'r teulu hwn.' Os bydd yno rywun tangnefeddus, bydd eich tangnefedd yn gorffwys arno ef; onid e, bydd yn dychwelyd atoch chwi.

"Arhoswch yn y tŷ hwnnw, a bwyta ac yfed yr hyn a gewch ganddynt, oherwydd y mae'r gweithiwr yn haeddu ei gyflog. Peidiwch â symud o dŷ i dŷ. Ac i ba dref bynnag yr ewch, a chael derbyniad, bwytewch yr hyn a osodir o'ch blaen. Iachewch y cleifion yno, a dywedwch wrthynt, 'Y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos atoch.'"

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Dad ein Harglwydd Iesu Grist, agor ein meddyliau i ddeall yr Ysgythurau a'n genau i gyhoeddi maddeuant yn enw'r hwn sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddiau Ôl-Gymun o'r llyfr *Y Calendr Newydd a'r Colectau* Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmau trwy ganiatâd o'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004*
Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.